# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 4

SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG PAN NA FO CAIS WEDI EI WNEUD

### 74 Rheoliadau cyd-bwyllgor pan na fo cais wedi ei wneud

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu corff corfforedig (a elwir yn gyd-bwyllgor corfforedig) i arfer, mewn perthynas â'r prif ardaloedd a bennir yn y rheoliadau ("yr ardaloedd perthnasol"), swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw'r amodau a nodir yn adran 75 wedi eu bodloni.

(3) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon ond pennu—

(a) swyddogaeth y prif gynghorau ar gyfer yr ardaloedd perthnasol sy'n ymwneud ag—

(i) gwella addysg;

(ii) trafnidiaeth;

(b) y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol (gweler is-adran (4) ynglŷn â hynny);

(c) y swyddogaeth llesiant economaidd.

(4) Pan bennir y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol mewn rheoliadau cyd-bwyllgor, mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) yn gymwys i'r cyd-bwyllgor corfforedig.

(5) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon sy'n pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai—

(a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y prif gynghorau ar gyfer yr ardaloedd perthnasol, neu

(b) yn arferadwy yn gydredol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a'r prif gynghorau hynny.

(6) Caniateir i swyddogaeth prif gyngor gael ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran hon drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.

**75 Yr amodau sydd i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau o dan adran 74**

(1) Mae'r amodau a grybwyllir yn adran 74(2) fel a ganlyn.

(2) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r canlynol ar ddrafft o'r rheoliadau—

(a) y prif gynghorau ar gyfer y prif ardaloedd sydd i'w pennu yn y rheoliadau,

(b) pobl leol yn ardaloedd y prif gynghorau,

(c) pob un o'r cynghorau ar gyfer cymunedau yn ardaloedd y prif gynghorau,

(d) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o'r prif gynghorau,

(e) y bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau,

(f) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan un neu ragor o'r prif gynghorau, ac

(g) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(3) Yr ail amod yw, os yw'r amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni a bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 74, eu bod wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad—

(a) i'r prif gynghorau ar gyfer y prif ardaloedd sydd i'w pennu yn y rheoliadau, a

(b) os yw'r rheoliadau yn pennu'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, i'r awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn unrhyw un neu ragor o'r prif ardaloedd sydd i'w pennu yn y rheoliadau.

(4) Gellir bodloni'r amod cyntaf drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.